Trosolwg

Wednesday, October 30, 2019 6:49 PM

Teitl yr Aseiniad: 'Portffolio sy'n cyfleu adfyfyrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.'

Enw: Katy Edwards


Rhif Myfyriwr: 1904761

Llwybr: Cwrs TAR


Dolen OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1904761_student_uwtsd_ac_uk/EsNN-_c-R1lLhcAw69eGF5oB5v5yCL10KYH_2_JRWU0i_A?e=iyQff5

Asesu ar gyfer dysgu

Wednesday, October 30, 2019 6:50 PM



07/11/19 - Defnyddiais i'r dull asesu ar gyfer dysgu yma fel tasg cloi gyda dosbarth blwyddyn 8 gallu cymysg. Pwrpas y dasg cloi oedd asesu faint o eiriau newydd oedd y disgyblion wedi dysgu yn ystod y wers. Gofynnais iddyn nhw ysgrifennu o leiaf tri gair newydd oeddent wedi dysgu ar post it note, yna wnes i gasglu'r rhain ar ddiwedd y wers. Ar ôl casglu'r post it notes a'i asesu, roedd yn glir bod llawer o'r disgyblion yn cael trafferth gyda sillafu rhai o'r geiriau newydd yma. Oherwydd hyn penderfynais i ddefnyddio'r wybodaeth yma i adeiladu ar ddysgu'r disgyblion trwy greu cwis sillafu er mwyn iddynt ddysgu sut i sillafu'r geiriau yma'n gywir.



11/11/19 - Defnyddiais i'r cwis yma gyda blwyddyn 8 gallu cymysg. Ar ôl asesu'r dysgu o'r wers ddiwethaf gwelais roedd llawer o'r disgyblion yn cael trafferth yn sillafu rhai o'r geiriau roeddent wedi dysgu yn ystod y wers ddiwethaf. O ganlyniad penderfynais greu cwis er mwyn asesu'r dysgu, wnes i greu cardiau goleuadau traffig a oedd yn gyd fynd gydag atebion y cwis. Roedd rhaid i bob disgybl dangos ei charden ar ôl i mi ddangos y dewis o atebion. Wnaeth y dull yma o asesu ar gyfer dysgu gweithio'n dda oherwydd roedd y disgyblion yn mwynhau ac yn dysgu yn uniongyrchol ac roedd modd i mi weld pa ddisgyblion oedd angen fwy o gymorth yn y dyfodol.

Task: Write a gothic descriptive writing piece concentrating on setting and character.

Success criteria:

-
-
-
-
-
-
-

Accuracy:

- Write at least 1 page
- Write in full sentences
- You must use capital letters and full stops
- Use paragraphs

Peer assessment:







Now yellow box your paragraph using the peer assessment to improve your work.

02/12/19 - Defnyddiais i'r dull yma o ofyn i'r disgyblion creu meini prawf llwyddiant eu hun er mwyn asesu beth oeddent wedi dysgu dros y cyfnod o wersi. Defnyddiais i'r dull yma gyda fy nosbarth gallu cymysg blwyddyn 8. Penderfynais roi'r cyfle iddyn nhw ddewis y meini prawf llwyddiant oherwydd roedd hyn yn rhoi'r cyfle iddyn nhw ddewis pa bethau byddai'n gwneud gwaith da. Mae'r daflen yma hefyd yn cynnwys asesu cyfoedion er mwyn i'r disgyblion asesu gwaith ei gilydd a defnyddio'r adborth yma i wella ei gwaith.

Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd

Wednesday, October 30, 2019 6:53 PM

From Bean to Bar Comprehension
Fairtrade



Cocoa trees grow in hot, damp climates in countries on or near the equator, such as Ghana and Brazil. After 3–5 years, each tree can produce more than 20 pods like this, which are ripe when they turn yellow.

They have already cut down the pods from the tree with the large, long knife – called a cutlass. The farmer splits the pods with the knife and scraps out the sticky white beans. Pods are harvested twice a year. The main harvest is October to February, and there is a smaller one in June/July.

The beans are collected and wrapped them in banana or plantain leaves which need to be left in a warm, shady place to ferment for 5 to 7 days.

The beans have fermented and are beginning to turn a chocolatey brown. They have been laid out in the direct sunlight to dry on special drying racks made of locally grown bamboo.



Once the beans are dry, farmers pack them into jute sacks and take them to the recorder when they will be weighed on scales to check each sack weighs exactly 62.4kg.

The farmers then load trucks with sacks of cocoa beans. Each truck can carry 180 sacks.

Tema is the biggest port in the country, and it's from here that most of Ghana's cocoa is exported. Containers are loaded on to ships, which carry cocoa to Europe, where it will be used to make chocolate.

After the beans arrive at the European port, they are taken by lorry to the chocolate factory. Here the cocoa beans are roasted and winnowed (to get rid of their shells) and turned into cocoa butter. These are then mixed together in a process called conching. Milk and sugar are mixed in at this stage to a specific and secret recipe.




The bars which have been formed by pouring liquid chocolate into moulds which will then be transported to The UK, where they will be sold to the customers.

Write a method for producing a chocolate bar.

- You must use time connectives
- Write the method in chronological order

25/11/19 - Defnyddiais I'r dasg llythrennedd yma gyda fy nosbarth gallu cymysg blwyddyn 7. Defnyddiais I'r dasg darllen a deall yma fel rhan o'r thema bwyd. Yn ystod y tymor defnyddiais i amrywiaeth o dasgau gwahanol yn ymwneud a bwyd a dyma un o'r tasgau llythrennedd oedd yn ymwneud a sut mae siocled yn cael ei greu. Roedd y dasg yma yn llwyddiannus oherwydd roedd modd i'r disgyblion dysgu am fasnach deg trwy ddarllen am sut mae siocled yn cael ei chreu mewn gwlad arall. Hefyd roedd modd iddynt weithio ar eu sgiliau llythrennedd ac ymarfer rhai o'r sgiliau oeddent wedi dysgu yn ystod y gwersi.



Fairtrade Cocoa

Wages of cocoa growers in West Africa

The average cocoa farm is around 3 hectares in size, about the same area as 4 football pitches. This is actually quite small for a farm: the average size of a European farm is 20 hectares. Even a traditional small family farm in Europe would still be around 6 hectares. The average cocoa farm will produce one or two tonnes of cocoa beans a year; one tonne is 16 sacks of cocoa.
The key finding of the FI and The Living Income Community of Practice research estimates the living income to be approximately approx. £1.86 per person per day in Côte d'Ivoire and approx. £1.60 per person per day in Ghana.

National minimum wage UK

	Rate from 1 April 2019
NLW for workers aged 25 and over	£8.21
the main rate for workers aged 21-24	£7.70
the 18-20 rate	£6.15
the 16-17 rate for workers above school leaving age but under 18	£4.35
the apprentice rate *	£3.90

Questions

1. How much more does an apprentice in the Uk earn than a person working on a cocoa farm in Côte d'Ivoire?
2. How much less does a person working on a cocoa farm in Ghana earn than a 25 year old worker in the Uk?
3. How much does a person working on a cocoa farm in Ghana earn a week?
4. How much does a 18 year old in the Uk earn a week?

How does this make you feel as a Uk citizen?
Write a paragraph stating your opinion on these statistics.

5. Do you think these wages are fair?
6. Do you think more should be done to improve wages in West Africa?

Classwork — The twenty ninth of November
Your Opinion Matters

1) £2.04
2) £6.61
3) £11.20
4) £43.05

5) In my opinion these wages are not fair because, although we are all [illegible] should all be treated the same and fairly as individuals. Many [illegible] the UK have more money than people in West Africa.

6) Yes because if they're doing the same job, [probably better], and getting Much MUCH less it is not fair.

28/11/19 - Defnyddiais i'r dasg rhifedd yma gyda dosbarth blwyddyn 7 gallu cymysg, wrth weithio ar uned o waith oedd yn canolbwyntio ar fwyd. Penderfynais wneud tasg rhifedd oedd yn ymwneud a Masnach deg er mwyn codi ymwybyddiaeth y disgyblion am sut mae bywydau pobl o wledydd eraill yn wahanol. Defnyddiais I ffigurau cyflogau gweithwyr o Orllewin Affrica a ffigurau cyflogau cenedlaethol Prydain er mwyn i'r disgyblion cymharu'r ffigurau a mynegi barn am y gwahaniaeth rhwng y ddau ffigur. Roedd y dasg yma yn llwyddiant oherwydd wnaeth y ffigurau yma codi ymwybyddiaeth y disgyblion am sut mae pobl o amgylch y byd yn byw.






03/12/19 - Fel rhan o uned gwaith oedd yn ymwneud â bwyd, gofynnais i fy nosbarth blwyddyn 7 gallu cymysg creu cyflwyniadau mewn grwpiau yn defnyddio dulliau digidol er mwyn ymchwilio a chreu cyflwyniad. Ffocws y dasg oedd newid eitem gyffredin mewn i rywbeth Nadoligaidd a chreu cyflwyniad am sut byddent yn marchnata'r eitem. Pwrpas y dasg oedd hybu sgiliau digidol y disgyblion a hefyd i ddefnyddio iaith berswadiol o fewn eu cyflwyniadau. Roedd y dasg yma yn llwyddiant oherwydd wnaeth y disgyblion ymdrech fawr yn eu cyflwyniadau ac roedd eu defnydd o ddulliau digidol.

Hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol

Wednesday, October 30, 2019 6:56 PM


Classwork

14th of November

Show not tell

Dark
Scary
Eerie
Mysterious

Embarrassed - I turned red like a tomato and started stuttering.

Nervous - I was shaking like a leaf and ~~turned~~ turned timid.

Tired - I felt like a sack of a potatoes walking to the bus.

Scared - I started sweating, it lubricated the palms of my hands. My heart rate increased.

Sad - I felt lonley and depressed, like no one liked me.

The house was haunted - The house screamed haunted, the darkness and creaking doors petrified me, I ran.


Tom was angry - Tom raged at his mother as she took his phone away.

It ~~was very~~ dark outside - It was as dark as a cows black patch.

The dog growled - The dog detested the cat and barked.

I was embarrassed - My face was on fire, I started to stammer.

14/11/19 - Mae'r llun uchod yn enghraifft o waith disgybl o fy nosbarth flwyddyn 8 gallu cymysg. Er mwyn datblygu sgiliau datrys problemau wnes i ddarparu tasg lle'r oedd rhaid i'r disgyblion creu brawddegau oedd yn dangos nid yn unig dweud teimladau. Roedd gwneud hyn yn rhoi cyfle i'r disgyblion feddwl am sut mae teimladau yn cael ei dangos a defnyddio'r brawddegau o fewn eu gwaith. Roedd y dasg yma yn llwyddiant oherwydd wnaeth y disgyblion cyfrannu syniadau eu hun a chreu brawddegau diddorol wrth edrych ar un gair oedd yn cynrychioli teimlad.



Classwork

The eighteenth ...

Setting

Pathetic Fallacy

(1) fear, daunting (2) isolated, lonely, gloomy

(3) relaxed, calm, peaceful (4) afright, tense, bloodless

angry atmosphere, unilluminated, frightening atmosphere, mysterious.

Sinister - creates dark atmosphere

dark, stone - makes the house sound unilluminated

grey slates - creates it mysterious.

broken gutters - shows that it is old and broken

no lightness - dark and scary atmosphere

miserable dark green - this a boring colour so it paints a dark picture in your head.

Swallow up the light - lifeless, gloomy atmosphere, like a monster has made it unilluminated

This castle used to be a bright, happy, sunny place full of life and colour. But one day a storm brewed, every happy person turned so miserable and ran inside. Suddenly, a bright lightning bolt flashed in the sky and within a second the storm swallowed up the light and ~~every person was~~ blu people were never seen again, although, nobody has ventured in because it is so gloomy, daunting, isolated, anyone who looks at it turnes bloodless, so, we don't know who could be watching every step you take. Good!

The atmosphere is dark ~~ang~~ and gloomy so it's sad and angry.
Harry is sat on his own and is lonely.
A storm appears as Harry gets angry.




Write a description of this image:

You must create an atmosphere using
- Pathetic fallacy
- Adjectives
- Colours

18/11/19 - Mae'r llun uchod yn enghraifft o waith disgybl o fy nosbarth flwyddyn 8 gallu cymysg. Er mwyn datblygu'r sgil o feddwl mewn modd beirniadol wnes i ddarparu tasg oedd yn ymwneud ac edrych ar luniau a ysgrifenni amdano. Roedd gwneud hyn yn rhoi

cyfle i'r disgyblion feddwl yn ddwys ac edrych yn fanwl ar bethau fel lluniau a llenyddiaeth cyn gwneud penderfyniad. Roedd y dasg yma yn llwyddiant oherwydd wnaeth y disgyblion cyfrannu syniadau eu hun am y llun ond hefyd fe wnaethon nhw ysgrifennu darn yn seiliedig ar y llun gan ddefnyddio eu dychymyg a beirniadaeth eu hun.



28/11/19 - Mae'r llun uchod yn cynnwys enghraifft o dasg greadigol dosbarth blwyddyn 8 gallu cymysg. Y dasg oedd ysgrifennu darn creadigol ar thema'r 'Gothic'. Roedd rhaid i'r disgyblion defnyddio iaith greadigol er mwyn creu darn ysgrifenedig yn ymwneud a'r 'Gothic'. Roedd gan y disgyblion rhyddid i ysgrifennu am unrhyw beth o fewn y thema o'r 'Gothic'. Roedd y dasg yma yn llwyddiannus oherwydd roedd rhyddid iddyn nhw fod yn greadigol gyda'r pwnc o fewn ei darn. Wrth roi'r rhyddid yma i'r disgyblion roedd modd magu eu hyder o fewn ysgrifennu creadigol a rhoi cyfle iddyn nhw ddatblygu syniadau eu hun.

Adfyfyrio Beirniadol

Thursday, December 5, 2019 1:44 PM

Cyflwyniad

Yn yr aseiniad yma byddaf yn ffocysu ar dri o egwyddorion addysgol Donaldson yn ei adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (2015). Byddaf yn canolbwyntio ar egwyddorion asesu ar gyfer dysgu, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol. Penderfynais ganolbwyntio ar yr egwyddorion yma oherwydd wrth ddefnyddio'r egwyddorion yma o fewn y maes dysgu 'Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu' mae modd deall sut i annog disgyblion i wneud cynnydd o fewn y maes dysgu a phrofiad yma.

Yn ôl adroddiad Donaldson (2015) 'Dylai dysgu fod yn brofiad parhaus, sy'n cynyddu o dipyn i beth wrth i blant a phobl ifanc dyfu ac aeddfedu'. Wrth feddwl am hyn fel sail y cwricwlwm newydd wrth ystyried y tair egwyddor mae'n bwysig i sicrhau nid yn unig fod cynnydd yn cael ei annog ond hefyd fod addysg yn creu dinasyddion egwyddorol, deallus. Byddaf yn ymchwilio i mewn i'r tair egwyddor ac yn canolbwyntio ar sut mae modd defnyddio'r egwyddorion i gefnogi cynnydd o fewn addysg. Byddaf hefyd yn adfyfyrio ar brofiadau addysgu o fewn fy lleoliad ysgol wrth geisio rhoi'r egwyddorion yma ar waith.

Llenyddiaeth

Mae asesu ar gyfer dysgu yn un o'r egwyddorion pwysig o fewn y cwricwlwm newydd. Yn ôl Llywodraeth Cymru mae defnyddio asesu ffurfiannol fel modd asesu yn sicrhau cynnydd trwy gydol addysg. Maen nhw'n dweud mai'n bwysig;

> 'Dod i wybod ble mae'r dysgwr arni (A), gwybod a dangos yn glir i ble mae angen i'r dysgwr gyrraedd (B) ac, yn bwysicach na hynny, dangos i'r dysgwyr sut i gyrraedd yno' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010, t.7).

Wrth ddefnyddio'r cynllun yma mae modd defnyddio dulliau asesu ar gyfer dysgu er mwyn galluogi disgyblion i wneud cynnydd o fewn addysg. Wrth ddarganfod lle mae'r dysgwr yn dechrau mae modd addasu dulliau asesu er mwyn cefnogi cynnydd y dysgwr a dangos iddynt sut i gyrraedd yno.

Yn ôl gwaith Black a William ar asesu ar gyfer dysgu, mae deall sut mae disgyblion yn dysgu ac addasu dulliau asesu ar gyfer dysgu yn sicrhau cynnydd o fewn addysg. Maen nhw'n dweud;

> While formative assessment can help all pupils, it yields particularly good results with low achievers by concentrating on specific problems with their work and giving them a clear understanding of what is wrong and how to put it right. (Black&William, 1998, p.6)

Trwy ddeall sut i addasu dysgu'r disgyblion mae modd defnyddio dulliau asesu ar gyfer dysgu er mwyn deall sut mae modd i ddisgyblion gwneud cynnydd. Hefyd mae defnyddio dulliau asesu ar gyfer dysgu yn sicrhau bod llwyddo o fewn addysg yn agored i bawb, diofal o allu.

Er mwyn ceisio ymateb i syniadau Black a William mae modd defnyddio Tacsonomeg Bloom fel dull cynnydd,

> ‘Mae Tacsonomeg Bloom yn darparu strwythur i gynllunio, asesu a gwerthuso addysg a hyfforddiant, ac effeithiolrwydd y profiad dysgu. (Datblygu’r gweithlu, 2019, t.7)

Mae Tacsonomeg Bloom wedi dylunio fel pyramid cynnydd. Wrth ddechrau ar y gwaelod mae modd cyflawni elfen o’r pyramid cyn cychwyn ar yr elfen nesaf. Er enghraifft yr elfen ar waelod y pyramid yw ‘Gwybodaeth’ felly ar ôl gwneud cynnydd yn yr elfen yma mae modd symud ymlaen er mwyn adeiladu ar y sgiliau a gwneud cynnydd yn yr elfennau uchaf. Wrth ddilyn y pyramid mae modd adeiladu ar bob lefel er mwyn gwneud cynnydd.

Mae’r canllawiau ar gyfer cwricwlwm 2022 o’r Llywodraeth yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd i mewn i bob maes addysg, mae’r Llywodraeth yn dweud;

> ‘Mae cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cefnogi y rhan fwyaf o ddysgu ac maent yn hanfodol er mwyn i ddysgwyr allu cymryd rhan yn llwyddiannus ac yn hyderus yn y byd modern.’ (Llywodraeth Cymru, 2019, p.12)

Mae sicrhau integreiddio cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd o fewn pob maes dysgu yn cefnogi dilyniant dysgu ac yn hybu disgyblion i fod yn unigolion iach a hyderus ac i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus, sef dau o’r dibenion cwricwlwm Donaldson. Pwrpas y cwricwlwm yw sicrhau fod gan ddisgyblion y sgiliau perthnasol i fod yn hyderus ac yn fentrus ar ôl ei amser o fewn addysg.

Wrth edrych ar y maes dysgu ‘Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu’ mae themâu trawsgwricwlaidd yn elfen bwysig o ddysgu sgiliau sy’n cefnogi cynnydd o fewn addysg. Yn ôl canllaw o’r Llywodraeth mae integreiddio rhifedd i mewn i’r maes dysgu yma yn sicrhau datblygiad amrywiaeth o sgiliau;

> ‘Wrth i ddysgwyr ddefnyddio rhifau mewn ieithoedd eraill bydd hyn yn ei dro yn atgyfnerthu dysgu a sgiliau rhifedd y pen a sgiliau rhifedd ysgrifenedig.’ (Llywodraeth, 2019, p.5).

Mae integreiddio’r sgiliau yma yn sicrhau dilyniant o fewn dysgu ac yn annog cynnydd o fewn pob maes dysgu. Yn ôl y canllawiau yma mae integreiddio sgiliau rhifedd o fewn meysydd dysgu a phrofiad eraill mae modd datblygu sgiliau pwysig er enghraifft echdynnu gwybodaeth allweddol a defnyddio sgiliau rhesymu i wneud penderfyniadau.

Mae David Didau yn anghytuno gydag integreiddio rhifedd i mewn i feysydd dysgu eraill, mae Didau yn dweud;

> ‘Just are there are many atrocities committed in the name of literacy at its worst numeracy across the curriculum is a concept so superficial it’s barely even there.’ (Didau, 2014).

Wrth feddwl am safbwynt Didau mae’n amlwg nid yw rhifedd yn integreiddio yn naturiol o fewn maes dysgu sy’n canolbwyntio ar sgiliau llythrennedd. Ond wrth feddwl am rifedd fel modd o ddatblygu sgiliau bywyd go iawn fel sgiliau rhesymu mae’n amlwg fod rhifedd yn integreiddio’n naturiol o fewn y maes dysgu yma.

Mae integreiddio sgiliau digidol i mewn i feysydd dysgu eraill hefyd yn rhan bwysig o gwricwlwm newydd Donaldson. Yn ôl canllawiau’r Llywodraeth;

> ‘Mae’r gallu i ddefnyddio technoleg ddigidol yn briodol a gweithredu mewn amrywiaeth o amgylcheddau a chyfryngau digidol, gan weithio’n greadigol, ar y cyd, ac yn feirniadol, yn dod yn fwyfwy pwysig.’ (Llywodraeth Cymru, 2019, t.12)

Mae’r gallu i ddefnyddio technoleg ddigidol yn llwyddiannus yn rhan bwysig o ddatblygu sgiliau bywyd o fewn y byd modern. Wrth ddatblygu’r sgiliau yma o fewn pob agwedd o addysg mae modd datblygu sgiliau digidol ond hefyd sgiliau creadigol.

Y trydedd egwyddor rwyf am ddefnyddio yn yr aseiniad yma yw hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol. Mae hybu sgiliau creadigol yn rhan bwysig o annog dysgu o fewn pob agwedd o addysg. Yn ôl Didau;

> ‘Like every other skills, creativity depends on and is activated by knowledge. In order to be skilled in more than one field you need to be knowledgeable in more than one field.’ (Didau, 2019, pp.186-7)

Wrth annog creadigrwydd o fewn addysg mae modd datblygu sgiliau sy’n bwysig o fewn pob agwedd o addysg. Mae gallu dysgu mewn modd creadigol yn sicrhau datblygiad sgiliau holl bwysig.

Mae dysgu mewn modd creadigol yn denu disgyblion i addysg ac yn sicrhau bod dysgu yn agored i bawb. Mae’r fath yma o addysgu hefyd yn annog disgyblion i ddefnyddio sgiliau eraill er enghraifft y gallu i werthuso, sgiliau cenhedlol a’r gallu i weithio gydag eraill. Yn ôl Ken Robinson mae creadigrwydd o fewn addysg yn fwy pwysig nawr nag erioed a dylai fod yn cael ei ystyried fel rhan bwysig o addysgu. Yn ei TED Talk ar greadigrwydd o fewn addysg dywedodd Robinson;

> ‘Creativity now is as important in education as literacy and we should treat it with the same status’ (Robinson, 2006)

Mae Robinson yn rhoi pwysigrwydd i greadigrwydd o fewn addysg fel Didau, mae’r ddau ohonynt yn gweld mae angen creadigrwydd ar gyfer cynnal amgylchedd addysgol cadarnhaol.

Mae’r gallu i feddwl yn gritigol hefyd yn rhan bwysig o addysg erbyn hyn gan ei fod yn un o’r sgiliau pwysig ar gyfer bywyd tu allan i addysg. Yn ôl Ennis; ‘Critical thinking is reasonable, reflective thinking that is focused on deciding what to believe or do’ (Ennis, 2011). Mae’r gallu i feddwl mewn modd rhesymol ac mewn modd adlewyrchol yn bwysig mewn addysg heddiw gan ei fod yn datblygu’r fath o sgiliau sy’n bwysig ar gyfer creu dinasyddion egwyddorol a hyderus.

Y trydedd rhan o’r egwyddor yma yw datrys problemau, mae datblygu’r sgiliau yma yn rhan bwysig o addysg gan ei fod yn sgil sy’n cael ei defnyddio o fewn pob maes o addysg. Yn ôl Ian Wood;

> “Through problem-solving, children develop their ability to bounce back, to be resilient and to understand that is normal to make mistakes”. (Wood, 2017)

Mae datblygu gwytnwch yn ystod y cyfnod addysg yn sgil bwysig oherwydd mae’n sicrhau fod disgyblion yn datblygu yn ddinasyddion iach a hyderus. Hefyd mae’r gallu i ddysgu wrth wneud camgymeriadau yn sicrhau fod disgyblion yn deall sut i ddysgu wrth eu gweithredoedd.

Cynnydd

Asesu ar gyfer Dysgu

Mae asesu ar gyfer dysgu yn egwyddor bwysig wrth annog cynnydd o fewn addysg. Er mwyn hyrwyddo cynnydd rhaid edrych ar le mae'r disgyblion yn dechrau er mwyn deall sut mae modd cynorthwyo nhw i ddeall yn union le mae angen iddynt gyrraedd. Wrth feddwl am Dacsonomeg Bloom mae modd edrych ar sut mae cynnydd yn cael ei chynorthwyo. Er enghraifft yn y llun gyntaf o'r rhan 'Asesu ar gyfer Dysgu' gweler dull defnyddiais er mwyn darganfod yn union ble roedd y disgyblion yn dechrau. Defnyddiais i'r dull o ofyn i'r disgyblion i ysgrifennu rhai o'r geiriau oeddent wedi dysgu yn ystod y wers, wrth gasglu'r post-its i mewn gwelais fod llawer o'r disgyblion wedi cam sillafu rhai o'r geiriau allweddol i'r gwaith. Er mwyn sicrhau cynnydd gwelais fod rhaid gweithio ar y sillafu cyn symud ymlaen gyda'r gwaith.

Defnyddiais i'r wybodaeth yma er mwyn hyrwyddo cynnydd trwy greu cwis sillafu er mwyn asesu'r dysgu yn ffurfiannol. Yn yr ail lun gweler ciplun o'r cwis sillafu, er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn gallu ateb y cwis o fewn amgylchedd diogel darparais gardiau goleuadau traffig er mwyn i'r disgyblion ymateb mewn ffordd weledol, ac mewn ffordd oedd yn galluogi pob disgybl i ymateb. Yn ôl Black a William mae addasu'r dulliau asesu ar gyfer y disgyblion yn cynorthwyo cynnydd mewn ffordd sy'n berthnasol iddyn nhw. Penderfynais greu'r cwis oherwydd roedd y disgyblion yn ymateb yn dda mewn gwersi lle'r oedd elfen weledol.

Ar ôl sicrhau cynnydd o fewn yr elfen sillafu o'r gwersi roedd modd symud ymlaen gydag annog cynnydd ymhellach. Yn y llun olaf gweler enghraifft o daflen wnes i greu er mwyn i'r disgyblion asesu gwaith ei gilydd ar ôl gorffen y dasg olaf o'r uned 'Gothic Writing'. Er mwyn

sicrhau cynnydd penderfynais adael i'r disgyblion creu meini prawf llwyddiant ei hun oherwydd roedd gan bob disgybl gwahanol dargedau ynglŷn â gwneud cynnydd. Hefyd trwy ddefnyddio asesu cyfoedion roedd modd i'r disgyblion asesu ei gilydd mewn modd ffurfiannol. Mae Black a William yn dweud dylai cynnydd fod yn agored i bawb felly trwy roi'r meini prawf llwyddiant o fewn dwylo'r disgyblion mae'n rhoi cyfle iddyn nhw weld yn union sut i wneud cynnydd. Hefyd wrth edrych ar Dacsonomeg Bloom mae modd gweld y cynnydd o'r llun gyntaf i'r llun olaf. Yn y llun gyntaf mae enghraifft o le mae'r disgyblion yn dechrau, yn y llun nesaf gweler y disgyblion yn cyrraedd y lefel nesaf o'r pyramid sef gwybodaeth ac erbyn y trydydd llun mae'r disgyblion yn cynyddu i'r lefel nesaf sef deallusrwydd. Wrth fynd ymlaen mae modd adeiladu ar y cynnydd yma er cyrraedd y lefelau nesaf o'r pyramid.

Cyfrifoldebau trawgwricwlaidd

Elfen bwysig arall o Gwricwlwm Donaldson yw'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, Yn ôl Estyn mae'r elfen yma yn bwysig oherwydd mae'n annog dilyniant mewn dysgu ac yn ennyn diddordeb disgyblion. Hefyd trwy themâu trawsgwricwlaidd mae modd sicrhau cynnydd mewn pob pwnc ac yn dysgu sgiliau bywyd pwysig. (Estyn 2016).

Yn y llun gyntaf yn yr elfen drawsgwricwlaidd gweler llun o dasg llythrennedd wnes i gyda dosbarth blwyddyn 7 yn ymwneud â masnach deg. Wrth ddefnyddio'r dasg yma roedd modd ymarfer sgiliau llythrennedd y disgyblion trwy ddarllen a deall ond hefyd dysgu'r disgyblion am faterion y byd. Mae dysgu disgyblion am faterion y byd yn sicrhau ei fod yn deall sut i fod yn ddinasyddion egwyddorol, un o'r dibenion cwricwlwm Donaldson.

Mae'r ail lun yn yr elfen drawsgwricwlaidd yn dangos tasg rhifedd wnaeth blwyddyn 7 oedd hefyd yn canolbwyntio ar fasnach deg. Er mwyn datblygu sgiliau rhifedd roedd rhaid i'r disgyblion cymharu cyflogau yng Ngorllewin Affrica a'r Deyrnas Unedig. Trwy'r dasg yma roedd modd i'r disgyblion gwneud cynnydd o fewn rhifedd trwy ddefnyddio dulliau rhifedd i ateb y cwestiynau. Ond hefyd wnaeth y dasg yma cynyddu eu deallusrwydd o fasnach deg a sut mae bywyd yn wahanol i bobl mewn gwledydd llai ffodus. Wrth feddwl am safbwynt Didau am rifedd fel thema drawsgwricwlaidd, dwi'n anghytuno gyda'r safbwynt oherwydd mae modd addasu rhifedd i fod yn berthnasol mewn pynciau eraill trwy addasu'r themâu fel gwnes i gyda'r dasg yma.

Mae'r llun olaf yn yr elfen drawsgwricwlaidd yn dangos tasg diwedd uned ddigidol wnaeth blwyddyn 7 yn ymwneud a'r thema bwyd. Mae'r llun yn dangos enghreifftiau o rhai o'r cyflwyniadau wnaeth blwyddyn 7 er mwyn marchnata cynnyrch yn ymwneud a bwyd. Mae'r llun yma yn dangos cynnydd dros amser ar ôl i'r disgyblion dysgu am fwyd, marchnata a masnach deg roedd rhaid iddyn nhw ddefnyddio'r sgiliau roeddent wedi magu er mwyn creu cyflwyniad er mwyn ceisio ennill 'Dragons den'. Trwy ddefnyddio technoleg o fewn pynciau eraill mae modd i ddisgyblion gwneud cynnydd o fewn pob maes dysgu a phrofiad. Fel mae canllawiau'r llywodraeth yn dweud mai defnyddio sgiliau digidol o fewn pob pwnc yn hybu gweithio'n greadigol, ar y cyd ac yn feirniadol, sef rhai o'r sgiliau fwyaf pwysig sydd angen magu o fewn disgyblion ar gyfer y dyfodol.

Hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol, a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol

Mae'r llun cyntaf o fewn yr elfen yma yn dangos tasg datrys problemau wnes i ddarparu i fy nosbarth blwyddyn 8, roedd rhaid iddyn nhw greu brawddegau oedd yn dangos teimladau wrth ddefnyddio un gair. Mae'r dasg yma, 'Show don't tell' yn dangos cynnydd o fewn datrys problemau oherwydd roedd rhaid i'r disgyblion defnyddio'r sgiliau oeddent wedi datblygu i greu'r brawddegau. Yn ôl Wood mae'r magu sgiliau datrys problemau yn datblygu gwytnwch ac yn annog dysgu o gamgymeriadau.

Mae'r ail lun yn dangos tasg o'r un dosbarth blwyddyn 8, oedd yn annog defnyddio'r sgil o feddwl mewn modd beirniadol. Mae'r llun yma yn dangos cynnydd y dosbarth dros amser gan ei fod yn dilyn yr un thema ond yn canolbwyntio ar ddatblygu ei ysgrifennu creadigol. Rhan o'r dasg oedd edrych ar lun a defnyddio sgiliau meddwl mewn modd beirniadol er mwyn creu paragraff disgrifio. Wrth adeiladu ar y gwersi diwethaf mae'r llun yma yn dangos cynnydd y disgyblion wrth iddynt adeiladu ar ei sgiliau disgrifio dros amser. Yn ôl Career Builder (2018) mae sgiliau datrys problemau yn bwysig i ddisgyblion ddatblygu er mwyn llwyddo yn y byd gwaith, wrth ddatblygu'r sgiliau yma mae disgyblion yn adeiladu sgiliau pwysig ac yn magu hyder a'r gallu i addasu o fewn y byd gwaith.

Mae'r trydydd llun yn dangos tasg diwedd uned oedd yn canolbwyntio ar ysgrifennu creadigol. Mae'r llun yma yn dangos cynnydd dros y gwersi oherwydd roedd rhaid i'r disgyblion defnyddio'r sgiliau oeddent wedi datblygu dros y gwersi er mwyn creu darn creadigol yn ymwneud a thema'r uned. Wnaeth y disgyblion defnyddio'r elfennau o'r gwaith dros yr uned er enghraifft y tasgau yn llun un a dau er mwyn creu'r darn olaf yma. Mae gweithio mewn modd creadigol yn hollol bwysig fel dywedodd Didau, mae creadigrwydd yn agored i bawb, felly mae defnyddio creadigrwydd o fewn addysg yn sicrhau fod addysg yn agored i bawb.

Datblygiad pellach

Wrth feddwl am barhau i wneud cynnydd o fewn yr egwyddorion yma mae'n bwysig i barhau i weithio yn ôl canllawiau'r Llywodraeth a hefyd yn ôl dibenion Donaldson. Mae'r cwricwlwm newydd yn pwysleisio pwysigrwydd creu dinasyddion egwyddorol, gwybodus, unigolion iach, hyderus. Cyfranwyr mentrus, creadigol, a dysgwyr uchelgeisiol, galluog. Er mwyn sicrhau mae disgyblion yn cyrraedd eu potensial mae rhaid sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd ac yn cael y gorau allan o addysg.

Er mwyn sicrhau cynnydd o fewn yr egwyddor asesu ar gyfer dysgu byddaf yn parhau i ymchwilio i mewn i wahanol ddulliau a fydd yn berthnasol i fywydau fy nisgyblion. Byddaf yn sicrhau fy mod i'n monitro gwaith y disgyblion er mwyn darganfod ble maen nhw'n dechrau a sut mae modd cynorthwyo cynnydd o fewn ei gwaith. Byddaf hefyd yn ceisio defnyddio dibenion Donaldson fel ysbrydoliaeth am weithio gyda disgyblion i wneud cynnydd. Trwy fagu hyder disgyblion trwy ddefnyddio asesu ffurfiannol byddaf yn ceisio magu hyder disgyblion o fewn addysg er mwyn iddynt weld sut mae modd iddynt wneud cynnydd.

Byddaf hefyd yn parhau i wneud cynnydd o fewn y maes trawsgwricwlaidd yn benodol yr elfen rhifedd. Ar ôl ymchwilio i mewn i bwysigrwydd rhifedd fel pwnc trawsgwricwlaidd mae'n amlwg ei fod yn rhan bwysig o ddysgu disgyblion am y byd eang. Er mwyn barhau i wneud cynnydd byddaf yn parhau i ddefnyddio tasgau rhifedd o fewn fy ngwersi wrth ddysgu am faterion bywyd. Mae cynnig rhifedd fel rhan o'r maes 'Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu' mae modd dangos i ddisgyblion fod rhifedd yn

berthnasol i bob elfen o fywyd. Trwy wneud hyn byddaf yn ceisio magu dinasyddion egwyddorol, gwybodus a hefyd magu hyder disgyblion o fewn rhifedd.

Yn olaf byddaf yn parhau i wneud cynnydd o fewn y maes sgiliau creadigol. Mae sgiliau creadigol yn rhan bwysig o addysg erbyn hyn oherwydd mae'n sicrhau fod addysg yn agored i bawb. Er mwyn gwneud cynnydd byddaf yn parhau i greu gwersi diddorol sy'n cynnwys elfennau creadigol. Mae defnyddio creadigrwydd o fewn gwersi yn annog cyd-weithio ac arloesedd, ac yn annog disgyblion i fod yn gyfranwyr mentrus, creadigol, un o ddibenion Donaldson.

Rhestr Gyfeiriadau

Thursday, December 5, 2019 1:45 PM

Addysg Cymru (2019). *Ieithoedd, Llythrenedd a Chyfathrebu*. Llywodraeth Cymru, pp. 5-12.

Black, P. and William, D. (1998). *Inside the black box*. Bloomington, IN: Phi Delta Kappan, p.6.

Careerbuilder.com. (2018). What are problem-solving skills and why are they important? | CareerBuilder. [online] Available at: https://www.careerbuilder.com/advice/what-are-problemsolving-skills-and-why-are-they-important [Accessed 10 Dec. 2018].

Datblygu'r Gweithle (2019). *Gwerthuso Dysgu*. Asiantiaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, p.7.

Didau, D. (2014). *The Secret of Numeracy (across the curriculum)*. [online] David Didau. Available at: https://learningspy.co.uk/featured/secret-numeracy/ [Accessed 31 Dec. 2019].

Didau, D. (2019). *Can 'creativity' be taught?*. [online] David Didau. Available at: https://learningspy.co.uk/featured/can-creativity-be-taught/ [Accessed 31 Dec. 2019].

Ennis, R. (2011). Critical Thinking. *Inquiry: Critical Thinking Across the Disciplines*, 26(2), pp.5-19.

Estyn.llyw.cymru. (2016). *Themâu trawsgwricwlaidd sy'n datblygu medrau allweddol disgyblion | Estyn*. [online] Available at: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/themâu-trawsgwricwlaidd-sy'n-datblygu-medrau-allweddol-disgyblion [Accessed 30 Dec. 2019].

Estyn.llyw.cymru. (2016). *Themâu trawsgwricwlaidd sy'n datblygu medrau allweddol disgyblion | Estyn*. [online] Available at: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/themâu-trawsgwricwlaidd-sy'n-datblygu-medrau-allweddol-disgyblion [Accessed 31 Dec. 2019].

Llyw.cymru. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. [online] Available at: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus-crynodeb-o-adroddiad-yr-athro-graham-donaldson.pdf [Accessed 31 Dec. 2019].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010). *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, p.7.

Robinson, S. (2006). *Transcript of "Do schools kill creativity?"*. [online] Ted.com. Available at: https://www.ted.com/talks/sir_ken_robinson_do_schools_kill_creativity/transcript?language=en [Accessed 31 Dec. 2019].

Wood, I. (2017). *Want to develop your pupils' problem-solving skills? Here's the solution*. [online] Tes. Available at: https://www.tes.com/news/want-develop-your-pupils-problem-solving-skills-heres-solution-sponsored [Accessed 31 Dec. 2019].